OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 Rhif 152 (Cy. 44) (C. 16)

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU
# TRWYDDEDU (MOROL), CYMRU
# LLYGREDD MOROL, CYMRU

## Gorchymyn Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 1) 2017

*Gwnaed* - - - - *14 Chwefror 2017*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 88(3)(c) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

**Enwi a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 1) 2017.

(2) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 24 Chwefror 2017**

**2.** Y diwrnod penodedig i'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf ddod i rym yw 24 Chwefror 2017—

(a) adran 77 (ffioedd am fonitro, amrywio etc. drwyddedau morol) i'r graddau sy'n angenrheidiol at ddiben gwneud rheoliadau;

(b) adran 78 (darpariaeth bellach ynghylch talu ffioedd) i'r graddau sy'n angenrheidiol at ddiben gwneud rheoliadau; a

(c) adran 79 (apelio yn erbyn amrywio etc. drwydded forol am beidio â thalu ffi neu flaendal) i'r graddau sy'n angenrheidiol at ddiben gwneud rheoliadau.

(**1**) 2016 dccc 3.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

*Lesley Griffiths*
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

14 Chwefror 2017

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Y Gorchymyn hwn yw'r gorchymyn cychwyn cyntaf a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ("y Ddeddf").

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym y darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf ar 24 Chwefror 2017—

(a) adran 77 (ffioedd am fonitro, amrywio etc. drwyddedau morol) i'r graddau sy'n angenrheidiol at ddiben gwneud rheoliadau;

(b) adran 78 (darpariaeth bellach ynghylch talu ffioedd) i'r graddau sy'n angenrheidiol at ddiben gwneud rheoliadau; ac

(c) adran 79 (apelio yn erbyn amrywio etc. drwydded forol am beidio â thalu ffi neu flaendal) i'r graddau sy'n angenrheidiol at ddiben gwneud rheoliadau.